

# ASTUDIAETH ACHOS

## Hyder a Thawelwch Meddwl i Ofalwyr â Cholled Clyw

## Cefndir

**Roedd Heather* wedi cael ei rhyddhau'n ddiweddar o'r ysbyty ac yn dymuno dychwelyd i'w chartref ei hun yn hytrach na symud i dŷ gwarchod.** Roedd ei symudedd yn gyfyngedig, felly roedd ei mab a'i merch yn cymryd tro i aros gyda hi dros nos i sicrhau ei bod yn ddiogel.

Mae gan fab Heather golled clyw ac roedd yn aml yn ei ffeindio hi'n anodd clywed pe bai ei fam yn galw am help yn ystod y nos. Er bod ganddynt system derbyn rhybuddion mewnol, nid oedd y rhybuddion sain yn ddigon cryf i'w ddeffro, gan adael y teulu yn bryderus, yn ddealladwy, ynghylch diogelwch dros nos.

## Ateb

Er mwyn helpu Heather i deimlo'n ddiogel gartref a rhoi tawelwch meddwl i'w phlant, cysylltwyd ei larwm personol â'r Vibe a'r pad rhybudd dirgrynol cysylltiedig ar gyfer y gobennydd. Mae hyn yn golygu, os bydd angen cymorth arni yn ystod y nos, bydd y pad dirgrynol yn hysbysu ei mab ar unwaith – hyd yn oed tra bydd yn cysgu.

Roedd y system yn hawdd ei gosod ac yn fuan daeth yn rhan allweddol o drefniadau diogelwch y cartref. Mae'n goresgyn cyfyngiadau'r system derbyn rhybuddion blaenorol ac yn sicrhau y gall mab Heather ymateb yn brydlon, er gwaethaf ei golled clyw.



## Canlyniad

Mae'r Vibe wedi gwneud gwahaniaeth ystyrlon i Heather a'i theulu. Bellach, gall Heather alw am gymorth yn hyderus, gan wybod y bydd ei phlant yn cael eu hysbysu ar unwaith pan fyddant yn aros gyda hi. Mae ei mab yn teimlo'n dawel ei feddwl gan wybod y bydd y rhybudd gobennydd yn ei hysbysu os bydd ei fam angen cymorth yn ystod y nos.

Mae'r system wedi galluogi Heather i barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn ei chartref ei hun, tra hefyd yn rhoi sicrwydd a hyder i'w phlant yn ystod gofal dros nos. Yn syml i'w defnyddio ac yn hynod effeithiol, mae'r Vibe wedi dod yn rhan hanfodol o sicrhau diogelwch Heather, gan gefnogi ei hannibyniaeth a thawelwch meddwl ei theulu.

*Nid ei henw gwirioneddol

**Cair (UK)**
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
**T**: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com